Gwahoddiad i Dendro:

# Adolygiad o lywodraethiant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Rhan 1 - Cefndir

### Nod yr Adolygiad Llywodraethiant

Mae'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn wahoddiad i unigolyn neu gwmni gynnal adolygiad o lywodraethiant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg). Pwrpas yr adolygiad fydd gwerthuso strwythurau a gweithdrefnau llywodraethiant presennol y Coleg a chyflwyno argymhellion i'n Bwrdd i'w hystyried, lle bo angen, i wella effeithiolrwydd a chryfhau gallu'r Coleg i gyflawni ei nodau a'i amcanion.

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

### Dathlu pymtheng mlynedd

Yn 2026, bydd y Coleg yn dathlu ei bymtheng mlwyddiant. Sefydlwyd y Coleg yn 2011 yn dilyn penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i greu corff cenedlaethol i gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y

prifysgolion, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn rhychwant y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion dros y 15 mlynedd diwethaf a bellach mae cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio ledled Cymru, a chynnydd hefyd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio rhywfaint o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2018 mae cyfrifoldebau'r Coleg wedi'u hymestyn i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae hyn wedi cynnig cyfle arloesol i wreiddio'r Gymraeg mewn colegau addysg bellach ac mewn gweithleoedd ar draws Cymru i raddau nas welwyd o'r blaen. O ystyried y niferoedd o ddysgwyr a hyfforddeion sy'n cofrestru bob blwyddyn yn y sector ôl-16, a'u cyswllt uniongyrchol â'r economi, cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cymru, mae cyfle euraidd i wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau Strategaeth Cymraeg 2050.pdf yn ogystal â gwireddu strategaethau Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill.

### Cyfrifoldebau newydd y Coleg

Yn sgil Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 sefydlwyd Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) sydd â chyfrifoldeb am gynllunio, cyllido, a rheoleiddio'r holl sector addysg drydyddol yng Nghymru. Dechreuodd Medr weithredu'n swyddogol ar 1 Awst 2024, ac ymhlith ei ddyletswyddau strategol y mae'n gyfrifol am hybu ac annog addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys Chweched Dosbarth mewn ysgolion). Mae Gweinidogion Cymru wedi **dynodi'r Coleg yn gorff i gynghori Medr** ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg, gan roi rôl strategol cenedlaethol pwysig a dylanwadol iddo. Yn ei gyngor cyntaf i Medr ym mis Medi 2024 amlinellodd y Coleg weledigaeth uchelgeisiol:

> *'bod pob dysgwr yn defnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol'.*

Yn ogystal â darparu cyngor ffurfiol o dan y dynodiad, mae'r Coleg hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau polisi Medr ar faterion perthnasol i'r sector drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Coleg ar ein gwefan.

## Strwythur llywodraethiant

Bwrdd y Coleg sy'n rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r corff drwy bennu strategaethau, cytuno ar sut a ble y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio, adolygu'r cynnydd a wnaed a chraffu ar gyflawniad.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at 12 aelod, gan gynnwys y cadeirydd. Cadeirydd presennol y Coleg, hyd at 31 Awst 2026, yw Dr Aled Eirug. Mae aelodau'r Bwrdd yn gyfarwyddwyr anweithredol ac yn ymddiriedolwyr gan fod y Coleg wedi ei gofrestru fel elusen. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo nifer o gyfrifoldebau i dri is-bwyllgor sefydlog:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol
- Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

Mae gan y Coleg Ddogfen Llywodraethiant cynhwysfawr sy'n nodi ei strwythur llywodraethu, cyfrifoldebau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, cod ymddygiad i'r aelodau, a'r fframwaith gweithredu. Mae'r Coleg wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau fel cwmni cyfyngedig drwy warant, yn ogystal â bod yn elusen cofrestredig, ac amlinellir cyfansoddiad cyfreithiol y Coleg yn ei Erthyglau Cymdeithasu.

Fel cyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig ac fel ymddiriedolwyr elusen aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiaeth â holl gyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol y Coleg.

## Yr Uwch Dîm Rheoli

Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr a'i dîm rheoli, ac mae aelodau'r tîm rheoli yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd ac is-bwyllgorau yn ôl

yr angen. Fel arfer bydd y Prif Weithredwr ac o leiaf un o'r cyfarwyddwyr gweithredol eraill yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd llywodraethiant er mwyn adrodd ar gynnydd, ateb cwestiynau, a darparu cefnogaeth i'r aelodau.

Nid yw aelodau'r tîm rheoli yn aelodau o'r Bwrdd.

Dr Ioan Matthews yw Prif Weithredwr y Coleg ers ei sefydlu yn 2011, ac mae wedi arwain y Coleg drwy sawl cyfnod o dwf strategol. Aelodau eraill y tîm rheoli yw:

**Cyfarwyddwyr**

- Gwenllian Griffiths, Cyfarwyddwr Materion Allanol
- Dr Dylan Phillips, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
- Dr Dafydd Trystan, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol
- Rebecca Williams, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol (cysgodol)

**Uwch Reolwyr**

- Suzanne Lewis, Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol
- Dr Lowri Morgans, Uwch Reolwr Addysg Bellach
- Gwenllian Owen, Uwch Reolwr Addysg Uwch
- Mari Fflur, Uwch Reolwr Polisi

## Rhan 2 – Manyleb a sut i wneud cais

Mae'r manyleb sy'n dilyn yn darparu arweiniad ar gyfer cynnal gwerthusiad ac adolygiad o lywodraethiant y Coleg. Gall yr adolygiad adnabod arfer dda yn y trefniadau sy'n bodoli'n barod yn ogystal â chynnig argymhellion, lle bo angen, ar gyfer gwella effeithiolrwydd a chryfhau gallu'r Coleg i gyflawni ei nodau a'i amcanion. Rhestrir nifer o faterion o dan y pum pennawd sy'n dilyn y dylid rhoi ystyriaeth iddynt wrth werthuso strwythur a gweithdrefnau llywodraethiant presennol y Coleg, a'u haddasrwydd gan ystyried rôl newydd y Coleg yn sgil ei ddynodiad i gynghori Medr. Dylai eich cais ddarparu cynllun drafft o adolygiad, ac amlinelliad o'ch methodoleg arfaethedig. Gall eich cynllun drafft gynnwys materion eraill tu hwnt i'r rheiny a restrir isod os bydd hynny'n gwella ansawdd ac allbwn yr adolygiad.

### Materion i'w hystyried mewn adolygiad llywodraethiant

**(i) Aelodaeth a chyfansoddiad y Bwrdd**

- Maint y Bwrdd
- Sgiliau, profiad a gwybodaeth yr aelodau
- Cynrychiolaeth ac amrywiaeth
- Addasrwydd hyd tymor aelodau ac amserlen trosiant aelodau
- Addasrwydd gweithdrefnau penodi / ail-benodi aelodau
- Trefniadau cynllunio olyniaeth a chynaliadwyedd arweinyddiaeth
- Manylebau rôl clir ar gyfer aelodau a'r Cadeirydd
- Presenoldeb ac ymgysylltiad aelodau
- Monitro ac adolygu perfformiad y Bwrdd a'r aelodau
- Cynefino, hyfforddiant a datblygiad parhaus aelodau

**(ii) Rôl a chyfrifoldebau**

- Rôl a chyfraniad y Bwrdd at arweinyddiaeth strategol y Coleg

- Eglurder ynghylch nodau ac amcanion y Coleg (a lle mae'r ffiniau rhwng gwaith y Coleg a chyrff eraill, yn enwedig Medr)
- Eglurder ynghylch y penderfyniadau sy'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'r swyddogion
- Addasrwydd Dogfen Llywodraethiant a Fframwaith Llywodraethiant y Coleg sy'n gosod allan y llif cyfrifoldebau a'r gyd-berthynas rhyngddynt
- Perthynas y Bwrdd a 'Llys' y Coleg (sef cyfarfod blynyddol yr 'Aelodau', h.y. rhan-ddeiliaid y Coleg)
- Monitro perfformiad a mesur canlyniadau gweithgareddau'r Coleg
- Cyfrifoldeb am gydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau
- Rheolaeth risg a rheolaeth fewnol
- Rheolaeth ariannol, monitro cyllideb, buddsoddiadau, archwiliadau
- Datgelu a rheoli gwrthdaro buddiannau
- Dealltwriaeth aelodau o'u cyfrifoldebau
- Rôl y Bwrdd wrth ymwneud â chyrff allanol, unigolion allweddol, a ffurfwyr barn

**(iii) Trefniadaeth**

- Amlder a hyd cyfarfodydd Bwrdd
- Trefn a ffocws cyfarfodydd
- Ansawdd trafodaethau
- Cydbwysedd rhwng trafodaethau ar bolisi a strategaeth a materion gweinyddol ac ariannol
- Ansawdd papurau i'r Bwrdd
- Mynediad at wybodaeth berthnasol rhwng cyfarfodydd
- Cefnogaeth ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**(iv) Pwyllgorau**

- Strwythur addas is-bwyllgorau
- Cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo a statws is-bwyllgorau

- Ystwythder y strwythur llywodraethiant i allu addasu i anghenion y cam nesaf yn natblygiad y corff
- Atebolrwydd a llinellau adrodd clir
- Darpariaethau oddi fewn i drefniadau is-bwyllgorau i gyfeirio ac uwchraddio materion at sylw'r Bwrdd
- Perthynas pwyllgorau â'i gilydd
- Ystod addas o sgiliau, profiad a gwybodaeth aelodau allanol is-bwyllgorau
- Addasrwydd hyd tymor aelodau ac amserlen trosiant aelodau
- Addasrwydd gweithdrefnau penodi / ail-benodi aelodau

**(v) Deinameg a diwylliant**

- Arweinyddiaeth y Cadeirydd
- Diwylliant cyffredinol y Bwrdd
- Ymddygiad aelodau'r Bwrdd ac is-bwyllgorau mewn (a rhwng) cyfarfodydd, ac ymlyniad wrth y Cod Ymarfer
- Gwerthoedd diwylliannol disgwyliedig wedi'u dogfennu'n glir
- Addasrwydd ac effeithiolrwydd Cod Ymddygiad yr aelodau
- Perthynas rhwng y Cadeirydd / Bwrdd a'r Prif Weithredwr a'r tîm rheoli
- Cyswllt a chyfathrebu gyda chorff staff a swyddogion y Coleg yn fewnol
- Cyswllt a chyfathrebu gyda chyllidwyr y Coleg
- Cyswllt a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid sectorol y Coleg

## Allbynnau Disgwyliedig

- Adroddiad cynhwysfawr sy'n amlinellu canfyddiadau ac argymhellion;
- Cyflwyniad o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion i'r Bwrdd:
  - wedi'u gosod mewn trefn blaenoriaeth

- yn gwahaniaethu rhwng argymhellion i'r tymor byr a rhai i'r tymor canolog / hir.

### Methodoleg arfaethedig

Dylai ymgeiswyr amlinellu eu methodoleg arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiad. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y bwriedir:

- casglu data (e.e. cyfweliadau, arolygon, adolygu dogfennau);
- meincnodi yn erbyn arfer llywodraethiant gorau mewn cyrff tebyg[1];
- sicrhau cyfrinachedd a gwrthrychedd.

Bydd cyfle i'r adolygwyr llwyddiannus arsylwi cyfarfod o Fwrdd y Coleg ar 25 Mawrth 2026, a rhai o gyfarfodydd is-bwyllgorau'r Bwrdd ym mis Ebrill a mis Mai.

### Amserlen

Dylid neilltuo oddeutu tri mis ar gyfer cwblhau'r adolygiad llywodraethiant. Disgwylir iddo ddechrau mor fuan â phosib a dod i ben fan bellaf erbyn 30 Mehefin 2026. Bydd disgwyl i chi gyflwyno eich canfyddiadau ac argymhellion i gyfarfod o'r Bwrdd ar 24 Mehefin 2026.

Dylai ymgeiswyr ddarparu amserlen fanwl o weithgareddau a dyddiadau lle bydd angen ymgysylltu gyda'r Tîm Reoli ac aelodau'r Bwrdd, er mwyn hwyluso'r trefniadau ac adnabod unrhyw heriau gyda'r amserlen arfaethedig.

### Y Gymraeg

Bydd disgwyl i'r unigolyn / cwmni llwyddiannus gynnal yr adolygiad yn y Gymraeg a darparu cyflwyniad ac adroddiad i'r Bwrdd yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Rhaid i'ch cais gadarnhau fod gennych y capasiti i gyflawni'r gofyniad hwn.

---

[1] h.y. corff strategol cenedlaethol sydd â tua 40 o staff ac sydd hefyd yn elusen

## Cyllideb

Amcangyfrifir bod gwerth y Tendr oddeutu £15,000.

Dylai ymgeiswyr ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau. Dylid dangos cost dyddiol pob aelod o'r tîm a fydd yn cyfrannu at yr adolygiad, beth fydd eu rôl, a nifer y dyddiau gwaith sydd wedi'u cynnwys yn y Tendr ar gyfer pob unigolyn. Dylid hefyd nodi cost unrhyw dreuliau ychwanegol, a rhaid i bob dyfynbris gynnwys TAW (lle bo'n berthnasol).

## Cyflwyno cais

Dylid cyflwyno cynigion erbyn 16:00 ar 23 Chwefror 2026 i Dr Dylan Phillips, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol drwy e-bost at d.phillips@colegcymraeg.ac.uk.

Rhaid i'r ceisiadau gynnwys:

- Cynllun drafft o gynnwys yr adolygiad arfaethedig;
- Disgrifiad clir o'r fethodoleg gan roi ystyriaeth lawn i sicrhau ansawdd a gwrthrycholdeb;
- Cynllun gwaith a cherrig milltir gan gynnwys amserlen fanwl gyda chamau gweithredu, adrodd a monitro cynnydd;
- Cyllideb ac amlinelliad o'r costau llawn gan gynnwys TAW;
- Tystiolaeth o brofiad blaenorol o gynnal adolygiadau effeithiolrwydd llywodraethiant;
- Proffil cwmni a CVs personél allweddol;
- Cadarnhad bod modd cwblhau pob elfen o'r gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Sgorio Ceisiadau

Bydd ceisiadau yn cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf a nodir isod.

- Dealltwriaeth o lywodraethu ac effeithiolrwydd bwrdd, a phrofiad o gynnal adolygiadau tebyg (30%);
- Ansawdd y cynllun drafft a'r fethodoleg arfaethedig (40%);
- Gallu i gyflawni'r adolygiad o fewn yr amserlen arfaethedig (15%);
- Gwerth am arian (15%).